

Disgrifiad Swydd:Swyddog Ymchwil

Cyfadran:	<i>Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd</i>
Adran/Pwnc:	<i>Yr Ysgol Feddygaeth</i>
Cyflog:	£39,105 i £45,163 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS
Oriau gwaith:	<i>Amser llawn</i>
Nifer y Swyddi:	1
Contract:	Rôl am gyfnod penodol o 24 mis yw hon
Lleoliad:	Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton

Cyflwyniad	Rydym yn chwilio am ymchwilydd biofeddygol neu gemegydd llawn ysgogiad a hoffai ddatblygu ei sgiliau gwyddonol mewn sbectrometreg màs fiolegol ac ym maes darganfod biofarcwyr. Byddwch yn ymuno â'r grŵp ymchwil ocsisterol yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae ymchwil y grŵp yn canolbwyntio ar fetaboledd colesterol a'i berthynas ag iechyd a chlefydau dynol. Mae grŵp ocsisterol Abertawe ar flaen y gad wrth ddatblygu technegau sbectrometreg màs arloesol ar gyfer dadansoddiadau sterol ac mae ganddo freintlythyr UDA. Byddwch yn rhan o raglen darganfod biofarcwyr sterol ar gyfer clefydau niwroddirywiol a chlefydau heintus ac yn cynnwys cydweithrediadau ehangach â chlinigwyr a chydweithredwyr rhyngwladol.
Gwybodaeth gefndirol	Nodwyd bod colesterol heb ei reoli yn gysylltiedig ag ystod o gyflyrau patholegol dynol. Mae gan labordy ocsisterol Abertawe gyfarpar helaeth o ran sbectrometrau màs o'r radd flaenaf er mwyn astudio'n feintiol lwybr metaboledd colesterol. Byddwch yn cael hyfforddiant drwy gydol y prosiect.
Prif Ddiben y Swydd:	<ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi biofarcwyr sterol sy'n gysylltiedig â datblygiad clefydau neu mewn ymateb i therapiwteg. 2. Dadansoddi samplau biolegol a gasglwyd gan gleifion a grwpiau safonol gan ddefnyddio sbectrometreg màs. 3. Dadansoddi data. 4. Cyfrannu at gynnal a chadw offer LC-MS. 5. Cyfrannu at weithredu a chynnal a chadw'r labordy.
	<ol style="list-style-type: none"> 6. Cyfrannu at ymchwil ac ymgymryd â hi mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau, gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno. 7. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. Disgwylir i'r sawl a benodir gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig y rhai hynny sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, yn rhan arferol o'i rôl. 8. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol er mwyn ceisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen. 9. Defnyddio creadigrwydd i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau ar sail y canlyniadau. 10. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol, a'r tu hwnt ym myd diwydiant a masnach ac yn y byd academiaidd.

	<ol style="list-style-type: none"> 11. Cyfrannu'n rhagweithiol at y broses o ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol i gefnogi eich gwaith eich hun, gwaith pobl eraill a gwaith y Gyfadran a'r sefydliad yn gyffredinol. Disgwylir i'r unigolyn a benodir gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau o'r fath fel rhan arferol o'i waith. 12. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol. 13. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol a phenodol a'r maes pwnc ehangach a'r goblygiadau ar gyfer cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth neu'r byd academiaidd. 14. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau yn ôl yr angen, gan achub ar y cyfle i ehangu profiad proffesiynol personol. 15. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi. 16. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrrff perthynol eraill. 17. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion Sefydliadau Addysg Uwch a'r Cyngorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.
<p>Dyletswyddau Cyffredinol</p>	<ol style="list-style-type: none"> 18. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol. 19. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd. 20. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.
<p>Manyleb Person</p>	<p>Meini Prawf Hanfodol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. PhD mewn Biocemeg/Biofeddygaeth/Cemeg neu bwnc cysylltiedig. Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr PhD presennol, sy'n agos at gwblhau eu gradd. 2. Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol a rôl bersonol wrth ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid. 3. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – gan benderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith. 4. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus. <p>Y Gymraeg:(dileer fel y bo'n briodol) Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon) <i>e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.</i></p> <p>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.</p> <p>Meini Prawf Dymunol</p> <ol style="list-style-type: none"> 5. Profiad o weithio gydag LC-MS, gorau oll cromatograffeg hylif UltiMate 3000 a sbectrometrau màs Orbitrap. 6. Profiad o weithio ar brosiectau darganfod biofarcwyr ar raddfa fawr gan ddefnyddio biohylifau, gorau oll CSF neu blasma. 7. Profiad o gemeg synthetig. 8. Prif awdur cyhoeddiadau ym maes sbectrometreg màs lipidau.

	9. Profiad o oruchwylio prosiectau ymchwil myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig.
Gwybodaeth Ychwanegol	Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Yuqin Wang y.wang@abertawe.ac.uk a'r Athro William Griffiths w.j.griffiths@abertawe.ac.uk

